

Electrolysis hydoddianau dyfrllyd

Cyfarpar (fesul grŵp)

- Bicer 100cm³
- Dau electrod carbon
- Dau glip crocodeil a gwifrau (un wifren goch, un wifren ddu)
- Cyflenwad pŵer cerrynt union
- Dau diwb profi (os ydych chi'n bwriadu casglu'r nwy)
- Daliwr electroddau os oes un ar gael (dylid gosod y ddau glip crocodeil ar hwn)
- Sblintiau a matsys

Dewis arall: cell electrolysis gydag electroddau carbon a thiwbiau sampl gwyrdr


Cyfarpar diogelwch: sbectol diogelwch

Paratoi

- 0.5 mol dm⁻³ o hydoddiant copr(II) sylffad – dim mwy na 50 cm³.

Cydosod y cyfarpar a gair i gall


Cydosod drwy ddefnyddio bicer a daliwr electroddau (fel yn y fideo)



1. Gosod y cyflenwad pŵer ar 6 folt DC
2. Defnyddio electroddau anadweithiol a gwneud yn siŵr nad ydynt yn cyffwrdd â'i gilydd.

1. Araen copr wrth yr electrod negatif.
2. Swigod nwy wrth yr electrod positif.

Cydosod drwy ddefnyddio cell electrolysis



Gwifrau 6 folt cerrynt union yn sownd i'r electroddau.

Electroddau wedi'u gorchuddio gan diwbiau profi sy'n llawn hydoddiant.

Mae'r nwy sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei ddal yn y tiwb profi.

Diogelwch

Darllenwch ein canllawiau iechyd a diogelwch safonol a chynnal asesiad risg cyn gwneud unrhyw waith ymarferol byw.

Trowch at gardiau peryglon a thaflenni rysâit SSERC/CLEAPSS.

Gall y dosbarthiad peryglon amrywio yn dibynnu ar y cyflenwr.

Cemegyn ar gyfer y gwaith ymarferol	Paratoi
Hydoddiant copr(II) sylffad(VI) – 0.5 mol dm⁻³ CuSO₄ (dyfr)  PERYGL Cyrydol (llygaid) Llidydd (croen)	Copr(II) sylffad(VI)–5-dŵr CuSO₄·5H₂O (s) MW= 249.68 g mol⁻¹  PERYGL Niweidiol os caiff ei lyncu Mae'n achosi llosgiadau difrifol ar y croen Mae'n achosi cosi poenus i'r llygaid Mae'n docsig iawn i fywyd dyfrol gydag effeithiau hirdymor

Gwaredu

Mae modd hidlo'r hydoddiant copr(II) sylffad os yw'n cynnwys gweddillion solid a'i ailddefnyddio ar gyfer yr un dasg ymarferol. Rhowch y papur hidlo a ddefnyddiwyd a'r gweddillion yn y bin gwastraff cyffredinol.

Os yw'r hydoddiant copr(II) sylffad wedi cael ei halogi, mae angen ei wanedu nes ei fod o dan 0.2 mol dm⁻³ cyn ei roi mewn draen dŵr budr.

Gallwch dynnu'r gweddillion copr oddi ar yr electrod carbon drwy ddefnyddio papur tywod neu gallwch adael yr electrod dros nos mewn hydoddiant 1.0 mol dm⁻³ o asid nitrig. Rinsiwch yr electrod gyda dŵr distyll a gwanedu'r hydoddiant asid nitrig i lawr i 0.1 mol dm⁻³ cyn ei roi mewn draen dŵr budr.

Lefel isel o berygl sydd i'r holl gynhyrchion eraill oherwydd faint sy'n cael ei gynhyrchu yn y dasg ymarferol hon.